# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 5

PENDERFYNU AR GEISIADAU AM GYDSYNIAD SEILWAITH

*Polisïau statudol a materion perthnasol eraill*

### 56 Penderfynu ar geisiadau: ystyriaethau cyffredinol

(1) Wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith, rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd)—

(a) rhoi sylw i—

(i) unrhyw ddatganiad polisi seilwaith sy'n cael effaith mewn perthynas â'r math o ddatblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef ("datganiad polisi perthnasol"),

(ii) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru i'r graddau y bo'n berthnasol i'r math o ddatblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef,

(iii) unrhyw gynllun morol (o fewn yr ystyr a roddir i "marine plan" yn adran 51(3) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23)) sydd wedi ei lunio a'i fabwysiadu gan Weinidogion Cymru i'r graddau y bo'n berthnasol i'r math o ddatblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef, a

(b) gwneud eu penderfyniad neu ei benderfyniad (yn ôl y digwydd) yn unol â'r datganiad polisi perthnasol, y fframwaith neu'r cynllun, oni fo ystyriaethau perthnasol yn dangos fel arall.

(2) Nid yw'r ffaith bod unrhyw ddatganiad polisi perthnasol, fframwaith neu gynllun yn nodi bod lleoliad yn addas (neu y gallai fod yn addas) ar gyfer math penodol o ddatblygiad yn rhwystro Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (yn ôl y digwydd) rhag penderfynu ar gais ac eithrio yn unol â'r datganiad polisi perthnasol, y fframwaith neu'r cynllun os yw ystyriaethau perthnasol yn dangos fel arall.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

## 57 Dyletswydd i roi sylw i faterion penodol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau

Wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith, rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) roi sylw i—

(a) unrhyw adroddiad ar yr effaith leol a gyflwynir i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir o dan adran 36;

(b) unrhyw adroddiad ar yr effaith forol a gyflwynir i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad cau a bennir o dan adran 37;

(c) unrhyw archwiliad a gynhelir o dan Ran 4;

(d) unrhyw faterion a bennir mewn rheoliadau mewn perthynas â datblygiad o'r math y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

(e) dymunoldeb lliniaru newid hinsawdd ac ymaddasu iddo;

(f) unrhyw ystyriaeth berthnasol arall.

## 58 Materion y caniateir eu diystyru wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau

(1) Wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith, caiff Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio ddiystyru sylwadau os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried, neu os yw'r awdurdod archwilio yn ystyried (yn ôl y digwydd), fod y sylwadau—

(a) yn flinderus neu'n wacsaw,

(b) yn ymwneud â rhinweddau polisi a nodir—

(i) mewn datganiad polisi seilwaith,

(ii) yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, neu

(iii) mewn unrhyw gynllun morol (o fewn yr ystyr a roddir i "marine plan" yn adran 51(3) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23)) sydd wedi ei lunio a'i fabwysiadu gan Weinidogion Cymru, neu

(c) yn ymwneud â digolledu am gaffael yn orfodol dir neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir.

(2) Yn is-adran (1), mae "sylwadau" yn cynnwys tystiolaeth.

(3) Caiff rheoliadau ddiwygio is-adran (1)—

(a) i bennu materion pellach y caniateir eu diystyru;

(b) i newid neu ddileu materion a bennir o dan baragraff (a).